

FFON GERDDED FFANTASTIG TAID

Roedd gan **Ariana Daid** a oedd yn hoffi **cysgu**, **chwyrnu**, a **chwarae** gyda'i **ddannedd ffug**.

Roedd **Ariana** yn gweld ei **thaid** fel hen ddyn, oherwydd dyna beth oedd ei thaid, hen **hen HEN** iawn.



Roedd **Taid Ariana** yn llawer hŷn nag **Ariana**, yn hŷn na'i rhieni, ac yn hŷn na'r rhan fwyaf o bobl roedd **Ariana** yn ei hadnabod – gan gynnwys yr hen fenyw drws nesaf!

Un nodwedd arbennig iawn am **Daid Ariana** oedd ei **ffon gerdded**.

Roedd y **ffon gerdded** hon wedi'i gwneud o bren tywyll.

Wedi'i cherflunio ar ddolen y **ffon gerdded** oedd cymeriad o'r chwedl hudol y Mabinogion.



Byddai **Taid Ariana** yn cerdded i **BOB MAN** gyda'i **ffon gerdded**. I'r siop leol, i'r parc cyfagos, i neuadd y pentref a hyd yn oed i'r tŷ bach!

Roedd **Ariana** yn caru ei **thaid** gyda phob gronyn o'i chorff.

Bob tro byddai **Ariana** yn gweld ei **thaid** byddai'r wên fwyaf a welwyd dyn erioed yn ymddangos ar ei hwyneb... ac ar wyneb ei **thaid** hefyd.



Ond yn fwy na hynny, pan fyddent yng nghwmni ei gilydd, byddai **chwerthin** diddiwedd yn dod o gegau'r ddau ohonynt.

Y prif reswm dros yr oriau o **chwerthin** oedd oherwydd hoffter **Taid Ariana** o redeg ar ei hôl yn y gobaith o'i dal a'i thiclo a gogleisio'n ddi-ddiwedd. Ond, fel arfer, byddai **Ariana** yn rhy gyflym i'w **thaid** a'i **ffon gerdded**.



Un diwrnod ar ôl ysgol, er mawr syndod i **Ariana**, daeth ei **thaid** i'w chasglu yn lle ei rhieni.

“Ble mae Mam a Dad?”

holodd **Ariana** yn ystyfnig, wedi plethu'i breichiau ac yn gwgu. Roedd **Ariana** yn gwrthod symud o fynedfa'r ysgol nes ei bod hi'n cael ateb gan ei **thaid**.

“Mae'r ddau ohonynt yn brysur heddiw, felly dwi wedi dod i dy gasglu yn lle – am hwyl!” atebodd **Taid Ariana**.

Ond doedd **Ariana** **DDIM** yn hapus ynghylch y peth.

Y rheswm pam nad oedd **Ariana** yn hapus oedd oherwydd arafwch ei **thaid**.

Gan fod ei **thaid** yn cerdded mor araf gyda'i **ffon gerdded** byddai **Ariana** yn colli'r hanner awr gyntaf o'i hoff raglen deledu!

Ochneidiodd **Ariana** yn dawel cyn dilyn ei **thaid** yn anfodlon.



Ar ôl cerdded ychydig o gamau, sylwodd **Taid Ariana** ar anfodlonrwydd ei wyres i gerdded adref yn ei gwmi.

Penderfynodd **Taid Ariana** mai **HEDDIW** oedd y diwrnod i ddangos **Ariana** pam ei fod e'n cerdded yn araf i **BOB MAN** gyda'i **ffon gerdded**.

Roedd hi'n amser dangos **Ariana** gwir **bwêr** y **ffon gerdded**.

Wrth i'r ddau ohonynt gerdded trwy'r parc ar ei ffordd adref, stopiodd **Taid Ariana** yn stond.

Ochneidiodd **Ariana** unwaith eto.

Roedd **Ariana** am gollir rhaglen deledu i gyd os oedd ei **thaid** am barhau i stopio bob deg cam!

Ond, yn ddiarwybod i **Ariana**, roedd **ffon gerdded** ei **thaid** yn gallu agor drysau hudol!



Yn sydyn, pwyntiodd **Taid Ariana** at ddrws cuddiedig wrth ymyl llwybr cerdded y parc. Doedd **Ariana** erioed wedi sylwi ar y **drws bach brown** o'r blaen.

Roedd y **drws bach brown** yma wedi'i guddio rhwng gwair hir, cloddiau mawr, a blodau gwyllt.



Gyda throad dramatig o'r **ffon gerdded**, tri chnoc ar y drws, ac ychydig o eiriau hudol gan ei **thaid**, agorodd y **drws bach brown** i fyd arall.

Yn betrusgar, camodd **Ariana** yn agosach at y **drws bach brown** i weld beth oedd y tu ôl iddo.

Trodd **Ariana** yn ôl i edrych ar ei **thaid** am ganiatâd i archwilio'r byd ymhellach. Rhoddodd Taid **Ariana** winc iddi a dwedodd,

"Hwn yw un o fy hoff ddrwsau i'w hagog. Cer i fwynhau!"

Roedd yr hyn a oedd o flaen llygaid **Ariana** yn **ANHYGOEL!** Roedd popeth tu hwnt i'r **drws bach brown** wedi'i wneud o **losin** neu **siocled!**

Roedd yr **afonydd** wedi eu gwneud o **siocled tywyll** wedi'i doddi.

Roedd y coed yn **lolipops Chupa Chups...**

y **blodau yn Jelly Tots...**

y **llwybrau yn Fruit Winders...**



yr **adeiladau yn fisgedi Pink Panther...**



a'r **cymylau'n gandï fflos.**

Rhuthrodd **Ariana** o gwmpas y byd ffantastig, amryliw gan fwyta popeth yn ei ffordd.

Llyfodd **Ariana** y **goeden** gyfagos a blasodd llond ceg o **fefus** a **mafon**, yna neidiodd dros y llwybr troellog at flodyn **glas** a blasodd llond ceg o **lus** gwyllt.



Roedd **Ariana** ar fin neidio i mewn i'r **afon siocled** pan ddwedodd ei **thaid** ei bod hi'n amser i fynd adref neu byddai **Ariana** yn colli e'i hoff raglen deledu yn gyfan gwbl.

Felly, yn lle neidio i mewn i'r **afon**, rhoddodd **Ariana** ei llaw i mewn gan lowcio'r **siocled** poeth oddi ar ei llaw.

Unwaith eto'r diwrnod hwnnw, dilynodd **Ariana** ei **thaid** yn anfodlon.

Doedd **Ariana** ddim eisiau gadael y byd anhygoel hwn! Roedd cymaint mwy o'r byd iddi ddarganfod a blasu o hyd.



Ond, allan ag **Ariana** a'i **thaid** trwy'r **drws bach brown** i'r parc – lle nad oedd yr un person wedi sylwi arnynt nac ychwaith ar y drws hudolus.

Erbyn i'r ddau gyrraedd adref, roedd rhieni **Ariana** yn y gegin yn paratoi swper.

Yn syth, sylwodd Mam **Ariana** ar y siocled o gwmpas ceg **Ariana** a throdd ei mam at **Daid Ariana** yn barod i roi stŵr anferthol wrtho.

O, na!

Roedd **Taid** mewn trwbwl!

Y **Taid** a oedd newydd gyflwyno **Ariana** i'w **ffon gerdded** hudol ac i fyd hollol **ffantastig**. Roedd **Ariana** angen achub cam ei **thaid**. Heb oedi ymhellach, bloeddiodd **Ariana**

"Bai fi yw e Mam!"



Parhaodd **Ariana** i gymryd y bai trwy egluro roedd y siocled o amgylch ei cheg yn rhodd gan ffrind o'r ysgol.

Ar ôl ychydig o berswâd, derbyniodd Mam **Ariana** y stori ffug, a throdd **Ariana** at ei **thaid** gan roi winc fawr iddo.

Cyfrinach rhwng **Ariana** a'i **thaid** yn unig oedd y **ffon gerdded** hudolus a'r byd amryliw tu ôl y **drws bach brown** yn y parc.

Y gyfrinach orau erioed.

Bellach, byddai **Ariana** yn edrych ymlaen at gael ei chasglu o'r ysgol gan ei **thaid** ac yn siomi bob tro y byddai'n gweld ei rhieni!



Gan: Cant a Mil o Freuddwydion

Awdur: Rhiannon Lloyd Williams

Darlunydd: Sioned Medi Evans